

Adnabod Bwyell Oes yr Haearn

Datblygodd castio yn dechnoleg gymhleth yn ystod Oes yr Haearn (2300-800 CC). Mae'r canllaw hwn yn dangos y prif newidiadau yn arddull a nodweddion bwyell.

Dewch o hyd i ragor o ganllawiau archaeoleg neu cysylltwch ag archaeolegwyr yr Amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepennau neu ar Twitter @SF_Archaeology



Bwyell wastad 2300-2150 BCE

Roedd y bwyell metel cyntaf yng Nghymru wedi'u gwneud o gopr o Brydain ac Iwerddon.

Ymddangosodd efydd – aloi o gopr, a thun o Gernyw – ym Mhrydain gyntaf tua 2150 CC. Dechreuwyd defnyddio bwyell gwastad efydd yn lle'r rhai copr.

Castiwyd y bwyell gwastad drwy arllwys metel tawdd i fowld carreg gwastad, un darn. Bydden nhw wedyn yn cael eu morthwyllo, eu miniogi a'u clymu i garnau pren.



Bwyell wastad datblygiad 1950-1750 BCE

Erbyn diwedd Dechrau Oes yr Efydd, roedd gan fwyell gwastad broffil tenau a llafnau lletach.

Roedd nodweddion newydd yn cynnwys proffil oedd yn teneuo ac esgyll oedd yn helpu'r fwyell i ffitio'n well i'r carn pren. Byddai esgyll cynnar yn cael eu morthwyllo, cyn cael eu castio'n ddiweddarach.

Byddai rhai bwyell yn cael eu gosod mewn beddau fel rhoddion claddu.



Palstaf 1500-1400 BCE

Palstaff, neu ffonfwyell oedd arf cyffredin Canol Oes yr Efydd. Castiwyd y rhain drwy arllwys efydd tawdd i fowld dwy ran o garreg neu efydd.

Roedd dyluniad mwy cymhleth bôn y llafn, gyda'r darnau ymwithiol bob ochr, yn golygu y gallai carn fforchiog wedi'i hollti gael ei wthio drwy fôn y llafn a'i glymu'n dynn, gan greu arf gwell i'w ddefnyddio.



Palstaf 1400-1275 BCE

Yn ddiweddarach, castiwyd ffonfwyell gyda dolenni ochr. Byddai cortyn neu sribedi lledr yn cael eu clymu i'r dolenni yma i strapio'r llafn efydd i'r ddolen bren.

Gall ffonfwyell fod yn blaen, neu ag addurn fel tarian, tryfer neu asennau ar yr wyneb.

Roedd gan ffonfwyell diweddar lafnau tenau fel arfer.



Bwyell socedog 1000-800 BCE

Bwyell nodweddiadol Diwedd Oes yr Efydd yw'r fwyell socedog, gyda hollt yn y canol i dderbyn y carn pren. Castiwyd y rhain mewn mowldiau cymhleth, tri darn o garreg, efydd neu glai. Ychwanegwyd plwm i'r metel tawdd er mwyn iddo lifo'n llyfn i'r mowld.

Mae bwyell fel hon, gydag asennau yn addurn, yn gyffredin iawn yn ne Cymru ac mae nifer wedi'u canfod mewn celciau yn yr ardal.